

Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad ar ddiwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG yng Nghymru

Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r modd y mae deintyddiaeth y GIG yn cael ei darparu trwy gontractau'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru.

Trosolwg

Rydym eisiau clywed eich barn ynglŷn â chynigion i newid y modd y mae gwasanaethau deintyddol yn cael eu darparu trwy'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru. Dyma'r cam cyntaf tuag at ddiwygio holl system ddeintyddol y GIG yng Nghymru.

Sut i ymateb

Cwblhewch yr arolwg ar-lein sydd ar gael ar dudalen we'r ymgynghoriad neu argraffwch y fersiwn i'w lawrlwytho o'r arolwg a'i e-bostio i'r cyfeiriadau isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiwn print bras, Braille ac ieithoedd amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

E-bost: HSS-PrimaryCareMailbox@llyw.cymru

Cyfeiriad:

Is-adran Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned –
Cangen Polisi Deintyddol,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd,
CF10 3NQ

This document is also available in English

Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarparwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan y staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn eu trafod neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Lle y bo Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach o ymatebion i'r ymgynghoriad, yna mae'n bosibl y bydd y gwaith hwn yn cael ei gomisiynu i'w gynnal gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghoriaeth). Gwneir unrhyw waith o'r fath o dan gcontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth hefyd. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd. O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data (mewn rhai amgylchiadau)
- i 'ddileu' eich data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gweler y manylion cyswllt isod.

Y Swyddog Diogelu Data: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, CAERDYDD CF10 3NQ, e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow, Swydd Gaer SK9 5AF Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG yng Nghymru

Tabl Cynnwys	5
Rhagair y Gweinidog	6
Manylion yr Ymgynghoriad	7
<u>Cyflwyniad</u>	9-11
- Y System Bresennol - Y sail resymegol dros newid - Yr effaith arfaethedig a'r canlyniadau buddiol	
Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio	12
Newidiadau arfaethedig a buddion disgwylidig	12-24
- Segmentu Contractau - Y model cydnabyddiaeth ariannol - Cysoni diwedd y flwyddyn - Atgyweirio ac Amnewid - Trefniadau absenoldeb rhiant ac absenoldeb salwch - Gofal brys - Cleifion â Llawer o Anghenion - Gwasanaethau Gorfodol - Methu â Mynychu Apwyntiad - Datblygiad Clwstwr Carlam / Mentrau Cydweithredol Proffesiynol - Rheoli Contractau - Taliadau ar sail Oedran - Refeniw o Ffioedd Cleifion - Llif Cleifion	
Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	24-25
Atodiad 1 – Diagram Llif	26
Atodiad 2 – Disgrifiadau o Becynnau Gofal	27-29
Cwestiynau'r Ymgynghoriad	30

Rhagair y Gweinidog

Mae Cymru lachach yn nodi gweledigaeth o drawsnewid yng Nghymru gan ddefnyddio 'dull system gyfan' sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal salwch. Mae ymateb y Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg yn amlinellu sut y bydd gwasanaethau iechyd y geg a gwasanaethau deintyddol yng Nghymru yn parhau i ddatblygu yn unol ag anghenion newidiol y boblogaeth a sut y byddant yn cyfrannu at y cynllun.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer deintyddiaeth yn seiliedig ar athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus ac rydym yn cydnabod bod angen newid y system. Rydym yn canolbwyntio ar drawsnewid, arloesi a chyflenwi er mwyn diwallu anghenion. Bydd y gwerthoedd a'r egwyddorion cynllunio sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun yn ein helpu i roi newid ar waith ym maes deintyddiaeth. Trwy fuddsoddi yn y timau sy'n darparu gofal deintyddol, cynnig arweinyddiaeth genedlaethol gadarn ac ymgysylltu'n barhaus, bydd modd gweld newid yn digwydd yn gymharol gyflym ledled Cymru. Rydym am wneud y canlynol:

- Gwella iechyd, iechyd y geg a llesiant y boblogaeth trwy ganolbwyntio mwy ar waith atal.
- Gwella profiad, ansawdd a mynediad at ofal deintyddol ar gyfer unigolion a theuluoedd.
- Gwella llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu deintyddol;
- Cynyddu'r gwerth sy'n deillio o ariannu gwasanaethau a rhaglenni deintyddol trwy wella, arloesi, defnyddio arferion gorau, a dileu gwastraff.

Rhan allweddol o gyflawni'r weledigaeth hon yw diwygio contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG. Rydym am greu contract sy'n cymell gweithgarwch atal, yn darparu triniaeth ddeintyddol ar sail risg ac anghenion, ac yn darparu cynnig cydnabyddiaeth ariannol teg a deniadol i'r proffesiwn deintyddol.

Cynhaliwyd negodiadau teirochrog rhwng mis Medi 2023 a mis Hydref 2024 rhwng Llywodraeth Cymru, y GIG, a Phwyllgor Ymarfer Deintyddol Cyffredinol Cymru i lunio a datblygu contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd. Mewn unrhyw negodiadau, bydd yna agweddau y bydd pob ochr yn cytuno arnynt, tra y gall elfennau eraill fod yn llai derbyniol neu'n ddadleuol.

Mae bellach yn bryd cyflwyno'r cynigion hyn er mwyn cael adborth ehangach gan y cyhoedd a'r proffesiwn deintyddol. Rwy'n annog pawb sydd â diddordeb mewn deintyddiaeth y GIG yng Nghymru i ystyried y cynigion hyn yn ofalus ac i ymateb i'r ymgynghoriad hwn cyn gynted ag y bo modd.

Jeremy Miles

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

MANYLION YR YMGYNGHORIAD

Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r modd y mae deintyddiaeth y GIG yn cael ei darparu trwy contractau'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu manylion cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG yng Nghymru a'r effeithiau posibl ar gleifion a deintyddion yn sgil y newidiadau.

Dyma'r newidiadau allweddol sy'n cael eu cynnig:

- Creu un llwybr mynediad i bobl at wasanaethau deintyddol y GIG
- Cyflwyno system cydnabyddiaeth ariannol wahanol sy'n decach ac yn fwy tryloyw.
- Datgymell archwiliadau cyffredin diangen
- Addasu ffioedd cleifion yn sgil newidiadau yn y system gydnabyddiaeth ariannol, a newid y dull o gasglu'r ffioedd hyn
- Newid telerau ac amodau contractau, fel absenoldeb rhiant

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru yn sgil diweddaru contractau. Mae'n cynnwys manylion am sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'n nodi hefyd nad oes angen diwygio pob agwedd ar y deddfau a'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau deintyddol er mwyn cyflwyno'r newidiadau hyn.

Lluniwyd y ddogfen ymgynghori hon gan Lywodraeth Cymru ac mae'n berthnasol i Gymru yn unig.

I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb pennaf?

Bydd y newidiadau arfaethedig yn berthnasol iawn i ddefnyddwyr gwasanaethau, byrddau iechyd, unigolion sy'n darparu, neu a allai ddymuno gwneud cais i ddarparu, gwasanaethau deintyddol y GIG, unigolion sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau deintyddol, neu a allai ddymuno gwneud cais i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau o'r fath, a chyrrff cynrychiadol gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli cleifion. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad i'w gweld ar dudalen 30.

Dyletswyddau Iaith Gymraeg

Mae'r egwyddorion craidd a sefydlwyd yn y contract GDS newydd yn ceisio cefnogi mynediad teg ar gyfer pob claf, gan gynnwys sicrhau bod practisau a chleifion mewn ardaloedd gwledig yn cael eu cefnogi. Mae hyn yn cyd-fynd â bwriad trosfwaol strategaeth y Gymraeg o ran hyrwyddo cymunedau cynaliadwy ac o ran creu'r amodau cymdeithasol lle y gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny.

Bydd chwe dyletswydd y Gymraeg yn y rheoliadau presennol yn cael eu cario drosodd i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol) (Cymru) 2026 o dan eu teitl dros dro a byddant yn cefnogi ymrwymiad strategaeth genedlaethol y Gymraeg tuag at gefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gwaith, ac wrth gael mynediad at wasanaethau.

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddarau mewn ymateb i ganlyniad yr ymarfer ymgynghori sy'n ymwneud â diwygio'r contract gwasanaethau deintyddol cyffredinol sy'n cynnwys cwestiynau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio darpariaeth gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru ac mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu ein bwriadau i ddiwygio contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG er mwyn gwella prosesau atal, mynediad ac ansawdd a sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy ar gyfer yr hirdymor.

Mae prosesau diwygio contractau wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd yn y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, ac mae cynlluniau peilot amrywiol wedi'u treialu ers 2017. Mae'r cynigion hyn yn cyfuno'r hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot ynghyd â mewnbwn gan gynrychiolwyr y proffesiwn deintyddol er mwyn gosod model contractio newydd ar gyfer Cymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r newidiadau polisi arfaethedig sydd eu hangen i gyflwyno'r diwygiadau. Bydd y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith trwy gyfrwng deddfwriaeth a chyfarwyddydau, a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Dirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006
- Dirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2005
- Llunio fersiynau newydd o'r rheoliadau uchod a chyfarwyddydau ategol

Y System Bresennol

Cyflwynwyd y contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol presennol yn 2006, er bod pobl yn parhau i gyfeirio ato yn aml fel y 'contract newydd'. Roedd y contract hwn wedi disodli hawliadau talu 'ffi am eitem' unigol â gwerth contract blynyddol y cytunwyd arno yn cynnwys taliadau misol sefydlog. Mae mesuriad y contract a ddefnyddiwyd ers 2006, yr Uned o Weithgaredd Deintyddol (UDA), yn tarddu o weithgareddau triniaeth a ddarparwyd cyn y contract newydd.

Mae gan bob deiliad contract werth contract blynyddol sydd, o'i rannu â'i gyfradd UDA, yn cynhyrchu nifer yr UDAs y mae angen i'r practis eu darparu bob blwyddyn. Yna mae gwerth y contract yn cael ei dalu mewn deuddeg rhandaliad gydag ymarferiad cysoni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Os yw practis wedi darparu'r nifer angenrheidiol o UD

As, nid oes angen unrhyw gamau pellach, ond os nad yw wedi'u darparu, gellir gofyn i'r practis dalu arian yn ôl i'r bwrdd iechyd o dan drefn a elwir yn "adfachu."

Mae UDAs yn cael eu hawlio mewn pedwar band gofal sy'n denu 1, 1.2, 3 neu 12 UDA. Fel arfer, mae gwerthoedd UDA practis unigol yn seiliedig ar weithgaredd cyn 2006, ac mae'r gwerth yn amrywio o bractis i bractis a hyd yn oed o fewn y practis ei hun. Bu ymdrechion i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn trwy osod isafswm gwerth UDA, ond mae yna amrywiad yn parhau, sy'n golygu bod rhai practisau yn

darparu triniaeth y GIG am lai o arian nag eraill er eu bod yn gwneud yr un gwaith, sy'n cael ei ystyried yn annheg.

Y Sail Resymegol Dros Newid

Mae modd atal pydredd dannedd a chlefyd y deintgig i raddau helaeth trwy fwyta llai o siwgr, cynnal hylendid y geg da trwy frwsio'r dannedd bob dydd, a defnyddio past dannedd fflworid. Rydym yn gwybod hefyd fod lleihau pydredd dannedd yn nannedd cyntaf plant (dannedd babi) yn eu hatal rhag cael problemau yn ddiweddarach mewn bywyd yn aml. Nid yw'r UDA fel mesur yn ysgogi nac yn gwobrwyo cynyddu mynediad, ansawdd, neu yn bwysicaf oll, gwaith atal. Mae'r cynigion sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen hon yn dangos yn glir sut mae gwaith atal a mynediad ar gyfer plant yn cael eu cymell o safbwynt ariannol.

Mae'r system bresennol o UDAs yn seiliedig ar fandiau, ond mae hyn yn achosi problemau. Er enghraifft, mae cwrs triniaeth band 2 yn cynnwys archwiliad, radiograffau (pelydr-x), trin y deintgig, tynnu dannedd, a llenwadau. Gall hyn arwain at ymarferydd deintyddol yn derbyn yr un tâl am ddarparu eitemau lluosog ag ymarferydd sy'n darparu un driniaeth yn unig. Mae hyn yn creu cymhelliant gwrthnysig, ac yn aml mae'n golygu bod practisau yn amharod i dderbyn cleifion â lefelau uchel o glefyd. O ganlyniad, mae'r rhai sydd â'r angen mwyaf am driniaeth yn cael trafferth cael mynediad at ddeintyddiaeth y GIG.

Yn debyg i weddill y DU, mae llawer o bractisau deintyddol yng Nghymru yn cynnig gwasanaethau deintyddiaeth breifat hefyd. Yn y gorffennol, roedd canran y gwasanaethau deintyddiaeth breifat a ddarparwyd gan ddeiliaid contract y GIG yn gymedrol o'i gymharu â'u ffrwd incwm y GIG. Fodd bynnag, mae'r ganran hon wedi cynyddu'n raddol dros y degawdau, ac mae'n bosibl ei bod wedi cyflymu'n sylweddol yn ystod ac ar ôl Covid. Mae'r ffioedd sy'n deillio o waith preifat tebyg yn fwy o lawer na ffioedd y GIG yn aml, sydd â'r potensial i gymell practisau i ganolbwyntio mwy ar ddeintyddiaeth breifat yn hytrach na'u contract gyda'r GIG.

Hefyd, mae'r model UDA yn cyfyngu ar fynediad brys ar gyfer cleifion. Er y bydd llawer o bractisau yn gweld pobl sydd wedi mynychu'r practis o'r blaen, dim ond yn ystod cwrs triniaeth agored y maent yn gyfrifol am glaf. Mae cleifion sydd heb berthynas â phractis deintyddol yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y driniaeth frys sydd ei hangen arnynt. Mae'r cynigion hyn yn sicrhau bod yn rhaid i bob contract y GIG ddarparu gofal brys ar gyfer y grŵp cleifion presennol ac unrhyw gleifion newydd sy'n ymglyfwyno trwy system ddeintyddol frys y Bwrdd Iechyd Lleol.

Er gwaethaf canllawiau NICE ar gyfnodau ailalw, mae llawer o bractisau wedi ailalw cleifion nad oes ganddynt unrhyw glefyd deintyddol/clefyd deintyddol difrifol bob 6 mis er mwyn creu'r UDAs sydd eu hangen i fodloni rhwymedigaethau eu contract. Nid oes unrhyw ran arall o system gofal iechyd y GIG yn blaenoriaethu cleifion iach dros y rhai sydd â chlefyd gweithredol. Mae hwn yn ddiffyg sylfaenol yn y system contract deintyddol sy'n seiliedig ar UDA, ac mae'n ddefnydd aneffeithlon o

adnoddau. Mae'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn cyflwyno newidiadau er mwyn sicrhau bod cyfnodau ailalw yn cael eu hystyngi i gyflawni canllawiau NICE.

Mae'r contract presennol yn talu contractwyr y GIG bob mis, yn seiliedig ar werth cyfartalog eu contract blyneddol. Os nad yw deintyddion yn darparu'r lefel o ddeintyddiaeth sy'n ofynnol o dan eu cytundeb â'r Bwrdd Iechyd, mae'n rhaid i'r practis ddychwelyd yr arian i'r Bwrdd Iechyd, dan drefn a elwir yn "adfachu." Fodd bynnag, mae'r contract wedi'i bwysoli'n drwm o blaid deiliad y contract, sy'n golygu bod byrddau iechyd yn cael trafferth ail-fuddsoddi unrhyw danberfformiad ariannol. Hefyd, dim ond gallu cyfyngedig sydd ganddynt i leihau gwerth contract yn unochrog oni bod dau achos o dorri contract ariannol. Mae hyn yn golygu bod yr arian yn cael ei "gloi" yn y practis am o leiaf ddwy flynedd, a fydd yn cael effaith andwyol ar fynediad ac yn creu defnydd aneffeithlon o arian cyhoeddus.

Ers 2022, mae practisau deintyddol wedi cael cynnig amrywiad i'r contract UDA traddodiadol, gan ddefnyddio metrigau newydd i fonitro gweithgarwch. Mae'r cynnig hwn yn cynnwys metrigau cleifion newydd a gofal brys er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau mynediad, yn ogystal â metrig atal a gyflwynwyd yn ystod camau cynnar diwygio'r contract. Mae dros 80% o bractisau wedi derbyn y cynnig hwn. Nod yr amrywiad yw lleihau effeithiau negyddol y contract UDA, cymell cleifion newydd, hyrwyddo gwaith atal, a lleihau lefelau ailalw diangen. Er bod yr amrywiad wedi gwella mynediad ar gyfer rhai cleifion, nid oes modd datrys llawer o ddiffygion y contract UDA yn llawn trwy'r amrywiad hwn yn unig, ac mae angen cyflwyno contract newydd i wneud newidiadau mwy sylweddol.

Mae'r newid yn cael ei ysgogi a'i gefnogi gan y proffesiwn hefyd. Mae'r model UDA yn creu annhegwch amlwg ac mae Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yn nodi bod y system bresennol yn cael effaith negyddol ar dimau deintyddol, a'u bod yn galw am newid.

Yr effaith arfaethedig a'r canlyniadau buddiol

Rydym eisiau gwneud y canlynol ar gyfer cleifion:

- sicrhau bod pob claf yn derbyn cyngor a thriniaeth unigol lle bo angen er mwyn atal pydredd dannedd a chlefyd y deintgig
- cynyddu atebolrwydd cleifion am eu hiechyd y geg eu hunain
- ehangu mynediad fel bod mwy o allu i ddarparu triniaeth ar gyfer pobl sydd â chlefyd
- sicrhau bod yr holl driniaeth sydd ei hangen i gynnal iechyd y geg ar gael
- newid y ffordd y mae pobl sydd ag iechyd y geg da yn cael mynediad at wasanaethau
- sefydlu llwybrau newydd sy'n galluogi pobl â lefelau uchel o glefyd y geg i dderbyn triniaeth
- gwella ansawdd y gwasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu

- sicrhau ei bod yn bosibl bob amser i gleifion newydd gael mynediad at ofal brys a gofal arferol

Rydym eisiau gwneud y canlynol ar gyfer deintyddion:

- Lleihau'r baich gweinyddol
- Cyflwyno system gydnabyddiaeth ariannol decach a mwy tryloyw
- Annog deintyddion i neilltuo mwy o'u hamser i ddarparu gwasanaethau'r GIG
- Galluogi dulliau cymysgu sgiliau a gwneud defnydd llawn o'r tîm deintyddol
- Cyflwyno rheolaethau contractiol cliriach er mwyn rheoli tanberfformiad

Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio

Yn achos y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau craidd y bydd yn ofynnol i gontractwyr (a Byrddau Iechyd Lleol) eu darparu, byddant yn cael eu rhoi ar waith trwy gyfrwng rheoliadau a wneir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006").

Caiff y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau deintyddol yng Nghymru ei osod yn bennaf yn Rhan 5 (adrannau 56 i 70) o Ddeddf 2006.

Ar hyn o bryd, ceir dwy brif set o reoliadau yn y maes hwn. Fe'u disgrifir isod:

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006. Dyma'r prif reoliadau, ac maent yn darparu ar gyfer y trefniadau ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG yng Nghymru.
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) 2005. Mae'r rheoliadau hyn yn amlinellu ffioedd cleifion sy'n gysylltiedig â thriniaeth ddeintyddol y GIG, a'r trefniadau ar gyfer pobl sydd wedi'u heithrio rhag talu ffioedd

Mae'r rheoliadau hyn yn seiliedig ar y Datganiad o Hawliau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a ddaeth i rym ar 24 Ebrill 2009, ac sy'n cael ei ddiwygio drwy gyfarwyddydau o bryd i'w gilydd.

Er mwyn cyflwyno'r diwygiadau, bydd angen dirymu'r rheoliadau a'r cyfarwyddydau uchod, a'u llunio eto i gynnwys newidiadau o dan ddwy set o reoliadau newydd sydd â'r teitlau dros dro canlynol:

- Rheoliadau'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2026
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2026

Y Broses Ddeddfwriaethol

Bydd y rheoliadau'n cael eu gwneud o dan weithdrefn negyddol y Senedd ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth (yn unol ag adran 203(4) o Ddeddf 2006)

Archwiliad manylach o'r newidiadau arfaethedig a'r manteision disgwylledig

Mae'r adran hon yn nodi manylion y newidiadau a fydd yn deillio o'r diwygiadau arfaethedig. Mae rhai elfennau o ddiddordeb i ddeintyddion yn unig ac eraill yn effeithio'n uniongyrchol ar y cyhoedd. Rydym wedi ceisio gwahanu'r rhain lle bo hynny'n bosibl, ac mae'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn ychydig yn wahanol hefyd ar gyfer y grwpiau hyn.

Mater 1 – Segmentu Contract

Mae gan bob contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol werth contract blynyddol (ACV) y cytunwyd arno. Roedd y trefniadau ar gyfer amrywio wedi cyflwyno'r cysyniad o segmentu'r ACV i gyfarwyddo sut mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio; yn benodol, sicrhau capasiti ar gyfer cleifion newydd sydd angen gofal brys a gofal arferol a thaliad penodol ar gyfer gwaith atal. Mae'r segmentu arfaethedig ar gyfer y contract newydd fel a ganlyn:

- (a) Mae 10% yn cael ei ddyrannu ar gyfer triniaeth frys i gleifion newydd – mae triniaeth ddiffiniol yn orfodol, ac mewn achosion lle nad oes modd darparu triniaeth ddiffiniol, mae disgwyl i'r practis gynnig apwyntiad ychwanegol i'r claf er mwyn cwblhau'r driniaeth frys ddiffiniol. Rhaid i bractisau ddarparu apwyntiadau ar adeg sy'n ofynnol gan y bwrdd iechyd ar sail dreigl chwe mis. Bydd pob claf yn cael ei gyflenwi trwy drefniadau mynediad brys y bwrdd iechyd, a rhaid talu'r ffi frys hyd yn oed os yw'r claf yn methu â mynychu.
- (b) Mae 10% yn cael ei ddyrannu ar gyfer asesiadau cleifion newydd – bydd pob claf newydd yn cael ei gyflenwi gan y bwrdd iechyd o'r Porth Mynediad Deintyddol, er y bydd eithriadau penodol i hyn e.e. plant sydd â rhieni sydd eisoes yn gleifion y GIG yn y practis
- (c) Bydd 70% ar gael i ddarparu pecynnau gofal.
- (d) Mae 5% yn cael ei ddyrannu ar gyfer taliad atal – bydd hyn yn gofyn am gydymffurfiaeth lawn â Darparu Iechyd y Geg Gwell (DBOH), defnyddio fflworid yn unol â'r gofynion amrywiad presennol, sgwrs am atal, a darparu cynllun gofal wedi'i deilwra sy'n seiliedig ar risg ac angen
- (e) Mae 5% yn cael ei ddyrannu ar gyfer blaenoriaethau lleol/cenedlaethol – bydd hyn yn cael ei nodi bob blwyddyn, fel arfer drwy negodi, a gallai gynnwys elfennau fel gweithgaredd Archwilio / Gwella Ansawdd, Hunanasesiad blynyddol, ardaloedd â llawer o anghenion/cadw staff.

Gall bwrdd iechyd amrywio'r ganran sy'n cael ei neilltuo i segmentau contract yn unol ag anghenion y boblogaeth a phroffil y practis, er enghraifft mae modd newid y ganran 10% ar gyfer cleifion newydd mewn lleoliad penodol.

Mater 2 – Y Model Cydnabyddiaeth Ariannol

Y model cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer deintyddiaeth y GIG oedd y prif bwnc trafod yn ystod y broses negodi. Roedd pawb yn gytûn bod angen disodli'r Uned o Weithgaredd Deintyddol (UDA) presennol â dull talu tecach a mwy tryloyw.

Ffi fesul eitem (FFI) oedd y dull talu ar gyfer deintyddiaeth y GIG ar ôl ei sefydlu ym 1948 hyd at gyflwyno'r contract UDA yn 2006. Yn ddamcaniaethol, FFI yw'r dull talu mwyaf tryloyw am fod yna welededd llawn a chysylltiad rhwng y gwaith sy'n cael ei wneud a'r taliad. Hon yw'r system cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer deintyddiaeth breifat hefyd, felly er nad yw wedi cael ei defnyddio ym maes deintyddiaeth y GIG ers bron i 20 mlynedd, mae ymlyniad i'r system hon o hyd mewn sawl rhan o'r proffesiwn. Fodd bynnag, mae FFI yn cymell neu'n gwobrwyo triniaeth, gan arwain at ddarparu gormod o driniaethau ar draul gweithgarwch atal. Wrth sicrhau bod polisi yn canolbwyntio ar weithgarwch atal trwy ddull sy'n seiliedig ar risg, ni ellir ystyried FFI yn ateb hyfyw nac effeithiol ar gyfer sicrhau gwelliant cynaliadwy ym maes iechyd y geg. Wrth ganolbwyntio nod y polisi ar atal trwy gyflwyno dull sy'n seiliedig ar risg, ni ellir byth ystyried FFI yn opsiwn hyfyw nac effeithiol.

Ar ôl ystyried manteision ac anfanteision y trefniadau amrywio presennol, ac adolygiad cynhwysfawr o gynlluniau amgen y pen sydd wedi'u pwysoli, cytunodd yr holl bartïon ar fodel pecyn gofal sy'n darparu taliad am ystod o driniaethau deintyddol cyffredin yn seiliedig ar gymhlethdod a'r amser sydd ei angen. Mae'r ffioedd a gynigir wedi'u nodi isod. Mae Atodiad 2 yn darparu manylion y cynigion sydd i'w cynnwys o dan bob pecyn gofal.

Graddfa Ffioedd ar gyfer Oedolion

	Pecyn Gofal	Pris Uned
1	Brys	£75
2	Asesu claf	£49
3	Pydredd Dannedd Syml	£65
4	Gwaith Adferol Estynedig	£124
5	Perio	£187
6	Therapi Sianel Gwreiddyn Blaen y Geg	£164
7	Therapi Sianel Gwreiddyn Cefn y Geg	£329
8	Coron/Pont	£253
9	Dannedd Gosod	£156
10	Sefydlogi Cleifion sydd â Llawer o Anghenion	£135
11	Ailalw mewn 3 mis	£180
12	Ailalw mewn 6 mis	£90
13	Ailalw mewn 9 mis	£67.50
14	Ailalw mewn 12 mis	£45

Graddfa Ffioedd i Blant (Gwerthoedd uwch i ysgogi mynediad ar gyfer plant, monitro parhaus, a chymorth ataliol)

15	Asesiad Cychwynnol o dan 1 oed	£80
16	Asesiad Cychwynnol 1-4 oed	£75
17	Asesiad Cychwynnol 5-12 oed	£70
18	Asesiad Cychwynnol 13-17 oed	£60
19	Ailalw mewn 6 mis	£110

Pe bai angen triniaeth ymyrraeth weithredol ar blentyn, byddai'n trosglwyddo i becyn gofal a byddai angen talu'r un ffi â'r ffi sy'n berthnasol i oedolyn.

Bydd trothwy uchaf yn cael ei osod ar nifer y triniaethau gwerth uchel (rhifau 7 ac 8 yn y tabl graddfa ffioedd). Ni ellir darparu mwy na 10% o'r 70% o werth y contract blynyddol (ACV) a ddyrannwyd i'r segment pecynnau gofal trwy ddarparu'r pecynnau gofal hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod darpariaeth yn canolbwyntio ar y nifer fwyaf o gleifion sydd â'r anghenion mwyaf. Gall hyblygrwydd lleol fod yn berthnasol i ardaloedd sydd â llawer o anghenion, neu bractisau sydd wedi gorfod darparu lefel anghymesur o'r math hwn o driniaeth yn y gorffennol. Byddai angen sicrhau cytundeb y bwrdd iechyd lleol ymlaen llaw i wneud hyn. Dylid rheoli darpariaeth yr eitemau hyn, ac unrhyw drothwy, yn gyfartal ar hyd blwyddyn gyfan y contract. Hefyd, bydd cost unrhyw offer deintyddol / eitemau labordy yn cael ei thalu ar wahân; mae'r elfen hon yn cael ei chwmpasu o dan yr adran ffioedd cleifion maes o law yn y ddogfen hon.

Nid oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig i'r drefn o wneud taliadau contract. Byddant yn parhau i gael eu gwneud mewn deuddeg rhandaliad misol. Bydd angen i bractisau gyflawni gwerth y contract gyda chysoniad diwedd blwyddyn yn seiliedig ar werth y pecynnau gofal sydd wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn. Ni fydd hyn yn dileu adfachu ar gyfer tanberfformiad yn erbyn y contract.

Mater 3 - Cysoni Diwedd y Flwyddyn

Ar hyn o bryd, gall y cysoni diwedd blwyddyn gymryd 3-4 mis. Mae gan bractisau 62 diwrnod ar ôl 31 Mawrth i gyflwyno eu ffurflenni hawlio mewn perthynas â thriniaeth a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol, sy'n golygu nad yw byrddau iechyd hyd yn oed yn gallu dechrau'r broses gysoni tan fis Mehefin. Yn aml, mae hyn yn golygu bod practisau yn gorfod aros tan fis Gorffennaf i gael gwybod a oes unrhyw adenillion ariannol yn berthnasol.

Rydym yn cynnig lleihau'r terfyn 62 diwrnod i 20 diwrnod, gan bennu cyfnod o 28 diwrnod i'r bwrdd iechyd ddarparu gwybodaeth diwedd blwyddyn i ddeiliad y contract. Ar hyn o bryd, mae dros 90% o bractisau yn cyflwyno'r ffurflenni o fewn 7 diwrnod i'w cwblhau, felly ni fydd hyn yn cynyddu'r baich gweinyddol.

Mater 4 – Atgyweirio ac Amnewid

O dan y contract presennol, os yw adferiad/offer yn methu o fewn 12 mis, rhaid i'r contractwr atgyweirio neu amnewid yr eitem sydd wedi methu. Ni chodir unrhyw dâl ar y claf am hyn, ond gall y contractwr hawlio'r UDAs sy'n gysylltiedig â'r eitem sy'n cael ei atgyweirio/amnewid.

O dan y contract newydd rydym yn cynnig y bydd y contractwr yn gyfrifol am y gwaith atgyweirio/amnewid, heb unrhyw daliad ychwanegol, am unrhyw driniaeth sy'n methu o fewn cyfnod o 12 mis ar gyfer triniaeth frys, a 24 mis ar gyfer triniaeth sy'n cael ei darparu o dan becyn gofal.

Cydnabyddwn y bydd angen diffinio hyn er mwyn nodi senarios lle nad yw gwaith atgyweirio ac amnewid am ddim yn briodol. Byddwn yn gweithio ar y mater hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori ond ni fyddwn yn newid hanfod y cynnig.

Mater 5 - Trefniadau Absenoldeb Rhiant ac Absenoldeb Salwch

Mae'r Datganiad o Hawliau Ariannol (SFE) presennol yn darparu ar gyfer taliadau sy'n gysylltiedig ag absenoldeb ar sail hyd gwasanaeth/tadolaeth/mabwysiadu/salwch. Cyfrifir y taliadau ar sail Enillion Pensiynadwy Net (NPE) neu Gyfwerth ag Enillion Pensiynadwy Net (NPEE) yr ymarferydd ac fe'u telir yn wythnosol. Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r meini prawf ar gyfer hawlio.

Yn 2017, gosodwyd cap ar y taliad uchaf yn Lloegr, sef £1,660 ar gyfer ymarferydd deintyddol a £3,630 ar gyfer ymarferydd orthodontig. Ni chyflwynwyd y cap hwn yng Nghymru, ond bwriadwn ei gyflwyno yn y contract newydd. Dim ond y lleiafrif sy'n ennill llawer iawn o arian a fydd yn cael eu heffeithio gan y newid hwn, a bydd modd ail-fuddsoddi unrhyw arbedion sy'n deillio o'r newid hwn yng ngwasanaethau deintyddol y GIG.

Absenoldeb Rhiant a Rennir

Mae'r cysyniad o absenoldeb rhiant a rennir (SPL) wedi bodoli ers blynnyddoedd lawer, ac mae absenoldeb o'r fath ar gael yn eang, yn enwedig mewn swyddi yn y sector cyhoeddus gan gynnwys y GIG. Fodd bynnag, nid yw'r SFE presennol yn gwneud darpariaeth ar gyfer absenoldeb rhiant a rennir ym maes deintyddiaeth gofal sylfaenol.

Rydym yn cynnig gwneud darpariaeth ar gyfer absenoldeb rhiant a rennir yn yr SFE ar gyfer y contract deintyddol newydd, gan ei seilio ar y cyfnodau amser a'r lefelau talu ar gyfer tâl mamolaeth.

Mater 6 – Gofal Brys

Gwyddom fod y cyhoedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i dderbyn gofal brys. Nid yw'r rheoliadau presennol yn cynnwys diffiniad da o ofal brys, ac o dan y model UDA mae'r tâl amdano yn wael o ran yr angen i ddarparu triniaeth ddiffiniol. Cynigir y canlynol:

- Dylai apwyntiadau brys gynnwys asesiad iechyd y geg cyflawn (gan gynnwys meinwe meddal) ac atgyfeiriad ymlaen lle bo hynny'n briodol.
- Dylai gofal brys leddfu poen a/neu atal dirywiad sylweddol o broblem benodol, gan gynnwys atgyfeiriad ymlaen os oes angen. Fel arfer, dylid darparu'r gofal hwn mewn ffordd sy'n darparu ateb hirdymor, lle bo hynny'n bosibl. Lle bo hynny'n briodol, a gyda chydysniad y claf, dylai gofal brys gynnwys triniaeth ddiffiniol barhaol, gan gynnwys triniaeth adferol. Pan gynghorir yn erbyn triniaeth ddiffiniol, neu os nad yw triniaeth o'r fath yn bosibl, bydd cyfiawnhad dros unrhyw driniaeth neu ofal a ddarperir yn cael ei gofnodi yng nghofnod clinigol y claf.

- Ar gyfer cleifion nad oes ganddynt berthynas â'r practis ar hyn o bryd, dylid eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r gofyniad iddynt chwilio am ofal pellach i ddatrys y mater brys neu sicrhau nad yw'r broblem yn digwydd eto. Er enghraifft, os oes angen rhagor o driniaeth arferol, dylid cynghori'r claf i gofrestru ar y Porth Mynediad Deintyddol.
- Er mwyn i'r contractwr gael ei dalu am unrhyw apwyntiadau brys newydd sydd wedi'u methu, rhaid i'r practis ddangos ei fod wedi gwneud ymdrechion digonol i sicrhau presenoldeb y claf. Rhaid cadw tystiolaeth o'r ymdrechion hyn a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio. Mae gweithgor wedi'i sefydlu i greu canllawiau ar sut y dylai practisau reoli cleifion brys newydd sy'n methu â mynychu eu hapwyntiadau.
- Bydd angen i bractisau fod ar agor ac ar gael i ddarparu gofal brys o Ddydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm.

Mater 7 – Cleifion â Llawer o Anghenion

Bydd cleifion sy'n ymgyflwyno i bractis â llawer o anghenion (sy'n cael eu diffinio fel anghenion sy'n gofyn am ddeg neu fwy o ymyriadau e.e. llenwadau/echdyniadau, gan gynnwys triniaeth endodontig (sianel y gwreiddyn) yn cael eu hatgyfeirio i lwybr ar wahân. Bydd gan Fyrddau lechyd y rhyddid i ddarparu'r llwybr hwn drwy'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, neu sefydlu trefniadau wedi'u comisiynu gyda phractisau deintyddol.

Wrth aros i'r atgyfeiriad gael ei gyflawni, mae strwythur ffioedd y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol yn darparu ar gyfer cwrs triniaeth sefydlogi a fydd yn paratoi'r claf ar gyfer triniaeth yn y dyfodol. Unwaith y bydd yr atgyfeiriad wedi'i gwblhau a'r claf yn ddeintyddol ffit, gall ddychwelyd i'r system Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol trwy'r Porth Mynediad Deintyddol (DAP).

Mater 8 – Gwasanaethau Gorfodol

Bydd y contractwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl driniaeth lefel 1 yn cael ei darparu yn y pecyn gofal. Mae canllawiau ar driniaeth Lefel 1 wedi cael eu datblygu gan yr arbenigeddau gwahanol, a bydd unrhyw atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud nad ydynt yn bodloni'r trothwy i fod uwchlaw lefel 1 yn cael eu dychwelyd i'r practis.

Mater 9 – Methu â Mynychu Apwyntiad

Mae practisau deintyddol yn ysgwyddo costau ac yn colli amser pan fydd cleifion yn methu apwyntiadau (methu â mynychu neu'n canslo yn hwyr). Yn y contract presennol, mae deiliad y contract yn ysgwyddo'r risg ariannol hon. Mae'r newid i ariannu cleifion brys newydd sy'n methu â mynychu apwyntiadau yn trosglwyddo rhywfaint o'r risg hon i'r GIG, ond mae'n anodd mynd ymhellach o ystyried y gofyniad am stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

Mae angen diffinio ymarfer da o ran lleihau cyfradd y cleifion sy'n methu â mynychu apwyntiadau, ac fel y nodwyd yn gynharach, mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu canllawiau cenedlaethol yn y maes hwn.

O safbwynt rheoleiddio, mae'r telerau canlynol yn cael eu cynnig i gynorthwyo practisau i reoli achosion o gleifion yn methu â mynychu apwyntiad:

- Ar gyfer cleifion newydd a ddyrannwyd trwy DAP/byrddau iechyd - bydd methu â mynychu asesiad cychwynnol ddwywaith yn arwain at eu dychwelyd i'r DAP (i waelod y rhestr).
- Ar gyfer cleifion sy'n derbyn triniaeth barhaus (pecyn gofal) - bydd methu â mynychu 2 apwyntiad yn olynol, neu 3 o fewn eu cynllun triniaeth (pecyn gofal), yn arwain at eu dychwelyd i'r DAP (i waelod y rhestr). Bydd canran o ffi'r pecyn gofal yn cael ei thalu am ddarparu triniaeth anghyflawn gan ddibynnu ar faint o driniaeth sydd wedi'i darparu.
- Rhaid arddangos cyfrifoldebau cleifion a chanlyniadau peidio â mynychu apwyntiad yn glir yn y practis, ar wefannau ac mewn taflenni gwybodaeth i gleifion.

Mater 10 - Datblygiad Clwstwr Carlam / Mentrau Cydweithredol Proffesiynol

Mae clwstwr yn dwyn ynghyd yr holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol, gan wasanaethu poblogaeth o rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynyn well i hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau.

Er bod gweithio yn unol ag ar ôl troed clwstwr wedi bod yn gyffredin i feddygon teulu ers blynnyddoedd lawer, nid yw'r maes deintyddiaeth wedi ymgysylltu'n llawn â'r cysyniad hwn, ac nid yw wedi cael ei ariannu i wneud hynny. Er mwyn galluogi timau deintyddol i sefydlu mentrau cydweithredol proffesiynol, rydym yn cynnig gwneud cyfranogiad mewn mentrau cydweithredol proffesiynol yn ofyniad contractiol.

O dan y trefniant hwn, bydd yn ofynnol i ddeintydd sy'n gweithio o dan y contract fynychu pedwar cyfarfod bob blwyddyn. Bydd £1,000 y flwyddyn ar gael i fynychu cyfarfodydd, a bydd yr arian hwn yn cael ei dynnu allan o'r ACV.

Bydd methu â bodloni'r gofynion (4 cyfarfod) yn arwain at gosb ariannol neu achos o dorri'r contract.

Mater 11 – Rheoli Contractau

Mae cosbau ariannol ar ddiwedd blwyddyn ariannol yn niweidiol i'r practis ac i fynediad at wasanaethau deintyddol y GIG. Rhaid i'r contract deintyddol nesaf roi'r ysgogiad priodol i gomisiynwyr leihau cosbau i'r lefelau isaf posibl fel bod modd defnyddio'r holl gyllidebau deintyddol yn llawn. Dyma'r cynigion:

Canol-blwyddyn - darpariaeth ddisgwyliedig o 40%. Ar hyn o bryd, mae gofal deintyddol y GIG yn cael ei ddarparu'n anghyfartal dros y flwyddyn. Mae'r contract UDA yn gofyn am ddarpariaeth 30% canol-blwyddyn sy'n arwain at ddarparu swm anghymesur o weithgarwch yn ystod ail hanner y flwyddyn. Mae'r newid hwn yn ceisio unioni'r anghydbwysedd hwn. Os nad yw practis yn gallu dangos ei fod yn

cyflawni yn unol â'r lefel hon, gall bwrdd iechyd gyflwyno addasiad ariannol canol-blwyddyn yn unochrog. Bydd hyn yn golygu bod modd ailddyrannu cyllid yn ystod y flwyddyn.

Gweithgarwch blwyddyn lawn yn is na 95% - bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull adennill ariannol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw'r hawl i adennill y tanberfformiad llawn, hyd at 100%, os yw contract wedi tanberfformio yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Os yw practis yn tanberfformio mewn dwy flynedd yn olynol, gall y Bwrdd Iechyd gyflwyno gostyngiad parhaol yn unochrog. Bydd angen i'r rheoliadau ragnodi'r broses sy'n debygol o ddefnyddio hysbysiadau torri'r contract.

Rhwng 95% a 100% o weithgarwch wedi'i gyflawni – gall y Bwrdd Iechyd ganiatáu i ddeiliad y contract gario'r tanberfformiad hwn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf neu ddefnyddio'r broses adennill ariannol. Os oes unrhyw danberfformiad yn cael ei gario ymlaen, rhaid sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni o fewn deufis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd.

Gweithgarwch 100% i 105% - gall y Bwrdd Iechyd gario hyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol ganlynol, heb unrhyw gynnydd yng ngwerth y contract. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw'r hawl i wobrwyo'r practis yn ariannol yn hytrach na defnyddio dull cario ymlaen.

Mwy na 105% o weithgarwch wedi'i gyflawni - ni fydd unrhyw addasiad yn cael ei wneud; bydd gweithgarwch yn cael ei golli.

Amrywiadau a Therfyniadau – cyfnod rhybudd 6 mis, cynnydd ar y 3 mis presennol.

Mater 12 – Taliadau ar sail Oedran

Yng Nghymru, gall ymarferwyr sydd wedi troi'n 55 oed wneud cais am daliadau ar sail oedran gan Lywodraeth Cymru. Rhaid anfon ceisiadau at Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Mae taliadau ar sail oedran yn cael eu gwneud ar gyfradd o 21.72% o Enillion Pensiynadwy Net (NPE) neu Gyfwerth ag Enillion Pensiynadwy Net (NPEE) yr ymarferydd. Mae taliadau ar sail oedran yn drethadwy ac yn gwbl bensiynadwy. Yr uchafswm taliad ar sail oedran y gall ymarferydd ei hawlio yw £662 y mis.

Cafodd taliadau ar sail oedran eu dileu o'r SFE yn Lloegr yn 2011.

Mae ceisiadau am daliadau ar sail oedran yng Nghymru yn rhyfeddol o isel. Rydym yn amau mai'r rheswm am hyn yw bod yna ragdybiaeth fod y taliadau wedi'u dileu ar yr un pryd â Lloegr.

Gellid dadlau bod y taliad hwn yn gwahaniaethu ar sail oedran, yn enwedig yn erbyn deintyddion sydd newydd raddio a fydd yn cymryd tipyn o amser i gynyddu eu cyflymder i'r hyn y gellid ei ystyried yn gyflymder cyffredin.

Cynigiodd LIC/y GIG y dylid dileu'r ddarpariaeth ar gyfer taliadau ar sail oedran o'r SFE yn y contract deintyddol newydd er mwyn buddsoddi'r cyllid yng ngofal cleifion.

Mater 13 - Refeniw o Ffioedd Cleifion

Ar hyd a lled y DU, mae cleifion deintyddol yn talu cyfraniad tuag at ofal deintyddol y GIG. Cyflwynwyd ffioedd cleifion am y tro cyntaf ym 1951 ac maent wedi parhau ers hynny. Mae'r ffioedd hyn yn gwneud cyfraniad pwysig trwy gynyddu'r gyllideb sydd ar gael i ariannu gofal deintyddol y GIG gan dros £20m.

Er mwyn newid o bedwar band triniaeth o dan system UDA i'r model 19 pecyn gofal sy'n cael ei gynnig ar gyfer y contract deintyddol newydd, mae angen newid y broses o bennu refeniw o ffioedd cleifion. Hefyd, mae'n gyfle i foderneiddio sut mae'r refeniw yn cael ei gasglu.

Casglu Refeniw o Ffioedd Cleifion

O dan y system bresennol, practisau deintyddol sy'n gyfrifol am gasglu ffioedd cleifion, sy'n creu baich gweinyddol a heriau ariannol oherwydd dyledion drwg a ffioedd banciau. Mae'r cynnig yn cyflwyno system dalu ar-lein lle bydd cleifion yn derbyn anfoneb trwy neges destun neu e-bost ar ôl derbyn triniaeth, a gallant dalu ar-lein. Nod y system hon yw lleihau'r baich gweinyddol ar bractisau gan mai Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG fydd yn gyfrifol amdano. Mae hefyd yn helpu i esbonio bod arian y Gyfradd Ffioedd Cleifion (PCR) yn mynd i'r byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru – nid yn uniongyrchol i'r practis – gan wahaniaethu'n glir rhwng gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Pennu'r ffioedd

Nid oes unrhyw gynigion i newid y meini prawf presennol sy'n eithrio pobl rhag talu ffioedd cleifion. Mae'r eithriadau i'w gweld yma [ffioedd deintyddol ac eithriadau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(GIG\) | LLYWODRAETH.CYMRU](#)

O dan y model UDA, roedd ffioedd cleifion yn cynrychioli tua 65% o gost Band 1 a 2, 70% o Fand 3 ac 80% o gost triniaeth frys. Mae hefyd yn golygu bod rhywun sy'n cael un llenwad yn talu'r un ffi Band 2 â rhywun sy'n cael tri llenwad a thriniaeth sianel y gwreiddyn. Mae dau faes lle cynigir newidiadau.

Offer Deintyddol

Mae'r system bresennol yn rhoi rhy ychydig o arian tuag at driniaethau deintyddol Band 3 mewn achosion lle mae angen offer deintyddol, fel dannedd gosod, coron, neu bontydd, gan nad yw'r taliad UDA am yr offer hyn yn ddigonol yn aml i dalu am gost yr offer a'r amser sydd ei angen ar gyfer y driniaeth. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r cynnig yn awgrymu gwahanu ffi'r claf am yr offer deintyddol oddi wrth y ffi am y driniaeth ei hun.

O dan y system newydd:

- Bydd **practisau deintyddol** yn cael taliad uniongyrchol am yr offer deintyddol, a rhaid i'r practis ddefnyddio pris cost yr offer - ni chaniateir gwneud unrhyw elw.
- Bydd **cleifion** yn gallu dewis y math o offer ar sail faint maen nhw eisiau ei dalu; nid yw'r dewis hwn ar gael yn y system bresennol oni bai bod y claf yn talu am gwrs cyfan o driniaeth yn breifat. Ar gyfer **cleifion sydd wedi'u heithrio** rhag talu am driniaeth ddeintyddol y GIG, bydd tariff penodol ar gyfer offer deintyddol yn cael ei gyflwyno sy'n darparu terfyn uchaf ar gyfer yr eitemau hyn, a bydd y gost yn cael ei chyfrif tuag at gyflawni ACV y contractwyr. Mae hyn yn sicrhau nad yw cleifion sydd wedi'u heithrio o dan unrhyw anfantais, ac mae'n golygu y gall practisau gwblhau llai o weithgarwch yn gyffredinol i gyrraedd eu targed.

Gan mai dim ond ar gyfer oddeutu **4% o driniaethau** y mae angen offer deintyddol, effaith fach iawn y bydd y newid hwn yn ei chael ar y mwyafrif o'r bobl sy'n cael gofal deintyddol y GIG.

Ffioedd am Driniaeth

Mae'r cynnig yn awgrymu y byddai cleifion sy'n talu am driniaeth ddeintyddol y GIG yn cyfrannu 50-60% o gost eu pecynnau gofal. Mae'r dull gweithredu hwn yn debyg i'r model a ddefnyddir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle mae cleifion yn talu 80% o gost y driniaeth hyd at uchafswm o £384, gan gynnwys offer deintyddol. Y nod yw sicrhau bod ffioedd cleifion yn adlewyrchu gwirioneddol gost y driniaeth.

O dan y system hon, efallai bydd rhai cleifion yn talu ychydig mwy am archwiliadau rheolaidd a gofal brys, a gallai eraill dalu llawer iawn llai am driniaethau cyffredin fel llenwadau unigol, tynnu dannedd, a choron unigol.

Isod, ceir rhai senarios i ddangos y ffioedd y byddai cleifion yn eu talu gan ddibynnu ar y driniaeth y maen nhw'n ei derbyn ar sail cyfraniad 55%.

Enghreifftiau o adegau pan bydd cleifion yn talu ychydig mwy:

- Archwiliad ar gyfer cleifion presennol - £24.75, y ffi bresennol yw £20
- Asesiad ar gyfer cleifion newydd - £26.95, y ffi bresennol yw £20
- Triniaeth frys - £41.25, y ffi bresennol yw £26.80

Hoffem nodi bod y ffioedd ar gyfer archwiliadau rheolaidd ac asesiadau cleifion newydd yn parhau i fod yn is na'r ffioedd ar gyfer triniaethau tebyg yn Lloegr (£27.40).

Dyma enghreifftiau o adegau y bydd cleifion yn talu ychydig yn llai:

- Hyd at bedwar llenwad/echdyniad - £35.75, y ffi bresennol yw £60
- Coron sengl - £239.15 (gan gynnwys ffi labordy), y ffi bresennol yw £260
- Dannedd gosod acrylig llawn - £225.80 (gan gynnwys ffi labordy), y ffi bresennol yw £260
- Pont 2 Uned - £233.15 (gan gynnwys ffi labordy), y ffi bresennol yw £260

Yr enghreifftiau uchod yw'r canlyniadau mwyaf cyffredin ar gyfer cleifion sydd angen triniaeth ddeintyddol. Felly, golyga'r cynigion y byddai pobl sydd angen triniaeth yn talu llai nag o dan y model ffioedd cleifion UDA presennol.

Enghreifftiau lle mae gwahaniaeth sylweddol:

O dan y contract UDA mae triniaeth sianel y gwreiddyn yn cael ei ddarparu fel eitem Band 2. Nid yw'r taliad a wneir i'r deintydd ar gyfer y math hwn o driniaeth yn adlewyrchu'r amser sydd ei angen i ymgymryd â'r driniaeth. Gan mai ein nod yw sicrhau taliad tecach, mae'r model pecyn gofal a gynigir yn mynd i'r afael â hyn drwy gynnig ffi uwch ar gyfer triniaeth sianel y gwreiddyn nag a gynigiwyd o dan y model UDA. Golyga hyn hefyd y bydd y ffi i'r claf ar gyfer triniaeth o'r fath hefyd yn cynyddu.

- Triniaeth sianel y gwreiddyn ar ddant blaen - £90.20, ffi bresennol £60
- Triniaeth sianel y gwreiddyn ar ddant cefn - £180.95, ffi bresennol £60

Mewn achosion prin (llai nag 1%), mae'n bosibl y bydd angen triniaeth sianel y gwreiddyn a choron ar glaf ar gyfer yr un cildant, ac o dan y fethodoleg hon, byddai'r driniaeth hon yn costio £420.10. Er mwyn sicrhau nad yw'r ffioedd yn uwch nag mewn ardaloedd eraill o'r DU, ceir cap o £384 ar ffioedd, gan gynnwys yr offer deintyddol. Yn yr achos hwn, byddai'r claf yn talu i'r practis deintyddol am y goron (offer deintyddol), ac yn talu'r balans sy'n weddill, hyd at £384, i'r Bwrdd Iechyd.

Mater 14 – Llif Cleifion

Mae gofal y GIG yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai gofal iechyd da fod ar gael i bawb, gyda mynediad yn seiliedig ar anghenion clinigol. Mae'r egwyddor hwnnw o roi cleifion yn gyntaf yn parhau i fod yn ganolog. Mae gofal y GIG wedi newid o wasanaeth sy'n rhoi diagnosis a thriniaeth ar gyfer salwch, i un sydd â rôl gynyddol o ran atal salwch a gwella iechyd y boblogaeth.

Un o'r heriau mawr o dan y contract UDA oedd y diffyg mecanwaith i sicrhau mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG i bawb oedd eu hangen. Yn ogystal, roedd cyfran sylweddol o gyllideb ddeintyddol y GIG yn cael ei gwario ar archwiliadau ar gyfer unigolion yn seiliedig ar y galw, yn hytrach nag ar sail ffactorau clinigol neu risg.

Mae contract deintyddol newydd o sylwedd, cyflwyno'r Porth Mynediad Deintyddol (DAP) a mandad clir ar gyfer diwygio yn gyfle i egluro'r berthynas rhwng cleifion â phractis deintyddol a sicrhau bod hyn yn seiliedig ar risg ac angen iechyd y geg cleifion. Bydd hyn yn golygu bod modd dyrannu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer deintyddiaeth y GIG i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Yn groes i'r gred gyffredinol, nid yw unigolion sy'n parhau i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG yn yr un practis wedi'u 'cofrestru' gyda'r practis hwnnw. Dim ond pan fydd y claf yn ymrwmo i gynllun gofal y byddant yn sefydlu perthynas 'ffurfiol' gyda'r practis. Pan fydd y cynllun triniaeth wedi'i gwblhau, daw'r berthynas ffurfiol rhwng y practis a'r claf i ben. Mae'r un peth yn berthnasol i gleifion sy'n dod i'r practis deintyddol at ddibenion cael archwiliad yn unig.

Dim ond rhwng 1990 a 2006 yr oedd proses gofrestru ar waith – nid yw cleifion wedi cofrestru gyda phractis cyn nac ar ôl y dyddiadau hynny. Prif ddiben proses cofrestru deintyddol y GIG yn ystod y cyfnod hwn oedd sicrhau mynediad amserol at ofal deintyddol brys a darparu ffrwd incwm rheolaidd i ddeiliad y contract. Mae'r canlyniadau positif sy'n gysylltiedig â chofrestru wedi'u trafod yn y cynnig contract newydd i raddau helaeth, trwy'r pecynnau gofal ail-alw parhaus.

Gyda gweithrediad y contract newydd, bydd y DAP yn gweithredu fel y prif borth ar gyfer cael mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yng Nghymru, gan roi sicrwydd bod cleifion o fewn system y GIG. Pan fydd claf wedi cofrestru gyda'r DAP, bydd yn cael ei neilltuo i bractis yn ei ardal leol. Bydd yr unigolyn yn cael ei wahodd am archwiliad ac yna, yn seiliedig ar ei anghenion clinigol, bydd yn cael ei roi yn ôl ar y DAP i aros am ei archwiliad nesaf, neu'n cael pecyn gofal yn y practis a neilltuwyd.

Y prif newid rydyn ni'n ei gynnig yma yw y bydd cleifion sy'n cael asesiad sy'n gofyn iddynt ddychwelyd mewn 18 mis neu fwy yn dychwelyd i'r DAP ar ôl eu hasesiad. Mae hyn o fantais i'r practisau gan y bydd yn lleihau'r angen gweinyddol i gysylltu â chleifion i'w hailalw. Bydd hefyd yn cefnogi'r cleifion gan y bydd ganddynt y sicrwydd o fod o fewn system y GIG, ac mae'n galluogi Byrddau Iechyd i fonitro'r galw am y gwasanaethau.

Yna, yn dibynnu ar statws ailalw'r claf a'r capasiti yn ardal y Bwrdd Iechyd ar unrhyw adeg, gellir neilltuo'r claf i bractis arall yn ei ardal pan fydd wedi'i ailalw o'r DAP. Ni fydd practisau deintyddol bellach yn cadw unrhyw restrau aros gan y bydd cleifion yn cael eu cyfeirio i'r DAP.

Gall neilltuo claf i glinig gwahanol fod yn fuddiol. Mae cael gofal gan wahanol bractisau yn sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan gymheiriaid, ac felly yn gwella rheolaeth glinigol. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r system gofal iechyd ehangach, lle bydd cleifion yn gweld amryw o weithwyr gofal iechyd proffesiynol i gael sylw ar gyfer eu hanghenion clinigol.

Mae'r pecynnau gofal a amlinellwyd yn gynharach yn y ddogfen hon yn sicrhau bod y bobl sydd angen triniaeth weithredol ar gyfer clefyd, neu fonitro parhaus, yn gallu cael mynediad at wasanaethau o'r un practis yn fwy rheolaidd (3, 6, 12 mis) nes bydd eu cynllun gofal wedi'i gwblhau. Felly, does dim byd yn newid mewn gwirionedd i bobl sydd ag angen clinigol am fynediad rheolaidd, neu os oes angen brys.

Gwyddom fod modd atal pydredd dannedd a chlefyd periodontol. Bydd cleifion sy'n dychwelyd i'r DAP yn perthyn i'r categori risg isaf ac yn gallu cynnal iechyd y geg drwy arferion hunan-ofal. Mae gweithredu'r DAP yn rhoi cyfle i chwalu'r naratif ffug bod angen archwiliad deintyddol bob chwe mis ar bawb. Yn lle hynny, mae'n cysoni deintyddiaeth â'r system gofal iechyd ehangach i ddarparu gofal aciwt a chronig yn seiliedig ar anghenion unigol. O dan y contract newydd, rydym yn sicrhau arferion gorau drwy sicrhau darpariaeth asesiadau, yn unol â chanllawiau cenedlaethol, i sicrhau nad yw cleifion yn datblygu cyflyrau cronig. Gall unrhyw aelod o'r tîm deintyddol wneud yr asesiadau hyn, gan hybu cymysgedd o sgiliau o fewn practisau.

Bydd cleifion sydd â bwlch hirach rhwng archwiliadau (18+ mis) yn cael 'Asesu Claf' yn eu hapwyntiad nesaf, hyd yn oed os ydynt wedi bod i'r practis o'r blaen. Mekanwaith cytundebol yw hwn sydd wedi'i gynllunio i sicrhau'r dyraniad adnoddau gorau a sicrhau mynediad parhaus. Nid yw'n adlewyrchu statws unigolyn fel claf y GIG.

Rydym yn cydnabod bod yna berygl y gallai cleifion sy'n cael eu hailalw ar ôl 18-24 mis orfod aros yn hirach na'r cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae angen inni ystyried ei bod yn ddiogel i gleifion sydd wedi cael triniaeth ac wedi'u sefydlogi gael eu rhoi yn ôl yn y DAP. Mae'r canlyniad hwn yn well o lawer na sefyllfa lle nad yw pobl â chlefyd y geg yn gallu cael mynediad at driniaeth. Mae'n bwysig nodi hefyd y bydd 10% o werth y contract newydd yn cael ei neilltuo ar gyfer asesu cleifion newydd, felly bydd capasiti ar gael bob amser ar gyfer llif cleifion o DAP i wasanaethau deintyddol y GIG, waeth beth yw eu risg glinigol.

Rydym hefyd yn cydnabod y gall claf gydag iechyd y geg da fod angen triniaeth frys am fater aciwt, ac y gall ymddangos bod neilltuo i'r DAP yn hytrach nag i bractis yn ei gwneud yn anoddach cael mynediad at ofal brys. Hoffem sicrhau cleifion, ar ôl i glaf dderbyn asesiad, a neilltuo apwyntiad ailalw ymhen 18-24 mis ar ei gyfer, a chael ei osod yn ôl ar DAP, y bydd ganddo hawl i gael gofal brys o'r un practis am 24 mis. Pan fydd y mater aciwt hwn wedi'i ddatrys, bydd yn cael ei ailalw i gael asesiad yn unol â'i statws ailalw gwreiddiol.

Yn y pen draw, rydym eisiau rhoi gwybod i'r cyhoedd nad yw cael archwiliadau rheolaidd fel claf iach yn sicrhau na fydd unrhyw broblemau yn digwydd tan yr apwyntiad nesaf. Asesiad sylfaenol ar y diwrnod ydyw. Rydym yn deall mai prif bryder y cyhoedd yw cael mynediad at ofal brys, a bydd y darpariaeth hwn yn parhau. Dylai cleifion sy'n cael eu hystyried yn gleifion risg isel deimlo'n bositif am iechyd y geg ac wedi'u cysuro o wybod nad oes rhaid iddynt fynd i'r clinig deintyddol yn ddiangen.

Mae diagram llif yn Atodiad 1 yn dangos y trefniadau arfaethedig hyn.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rydym wedi paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) i gyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn. Mae'r RIA yn asesu'r costau, y manteision a'r risgiau tebygol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig yn y polisi. Mae'r EIA yn ystyried y prif effeithiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r polisi ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

Dangosodd y dadansoddiad yn yr RIA fod y diwygiadau arfaethedig i'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn darparu manteision sylweddol. Mae'r manteision hyn yn cynnwys gwella canlyniadau cleifion, gwella'r broses o ddyrannu adnoddau, lleihau costau hirdymor i fyrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gwella gwytnwch y gweithlu, ac enillion economaidd a chymdeithasol cyffredinol. Mae'r RIA yn dangos y bydd y newidiadau arfaethedig yn sicrhau dull mwy modern

ac ystwyth o ddarparu gwasanaethau deintyddol yng Nghymru, mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y claf.

Canfu'r dadansoddiad yn yr AEA fod y diwygiadau arfaethedig i'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn cefnogi'r uchelgais a nodir yn *Cymru Iachach* i ddarparu gofal o ansawdd uchel a sicrhau canlyniadau iechyd mwy cyfartal i bawb yng Nghymru. Mae cysylltiad cryf a chyson rhwng statws economaidd-gymdeithasol a chyffredinrwydd a difrifoldeb clefydau a chyflyrau'r geg. Mae hyn yn arwyddocaol wrth ystyried yr effeithiau ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, sy'n fwy tebygol o fod yn byw mewn ardaloedd diffreintiedig.

Trwy drosglwyddo i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ac anghenion, mae'r contract newydd yn ceisio chwalu rhwystrau i bobl sydd wedi cael trafferth cael mynediad at ofal deintyddol y GIG yn y gorffennol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu capasiti ar gyfer cleifion newydd a darparu triniaeth. Yn arwyddocaol, mae'r cynigion yn cymell mynediad at wasanaethau i blant trwy ddarparu gwerthoedd uwch i becynnau gofal, sicrhau cymorth ataliol cynhwysfawr a hyrwyddo canlyniadau iechyd y geg gwell. Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio iteriadau o'r asesiadau effaith hyn yn y dyfodol.

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

- ***Y Broses Ymgynghori***

Mae ymgynghoriad deuddeg wythnos yn cael ei lansio er mwyn rhoi cyfle i bobl gyflwyno sylwadau ar y cynigion hyn.


Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl ymatebion a dderbynnir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn a bydd crynodeb o'r ymatebion a dderbynnir yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

- ***Y grwpiau yr effeithir arnynt***

Bydd y cynigion yn berthnasol i bawb sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru, ac i'r rhai sy'n cynorthwyo neu sy'n bwriadu cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau o'r fath, yn ogystal â Byrddau Iechyd Lleol a'r cyhoedd.

Atodiad 1 Diagram Llif Cleifion Newydd Arfaethedig

Mae'r diagram isod yn dangos taith cleifion newydd o dan y model newydd arfaethedig.



Disgrifiadau o Becynnau Gofal**1. Gofal brys**

- Dylai apwyntiadau brys gynnwys asesiad iechyd y geg cyflawn (gan gynnwys meinwe meddal) ac atgyfeiriad ymlaen lle bo hynny'n briodol.
- Dylai gofal brys leddfu poen a/neu atal dirywiad sylweddol o broblem benodol, gan gynnwys atgyfeiriad ymlaen os oes angen. Fel arfer, dylid darparu'r gofal hwn mewn ffordd sy'n darparu ateb hirdymor, lle bo hynny'n bosibl. Lle bo hynny'n briodol, a gyda chydsyniad y claf, dylai gofal brys gynnwys triniaeth ddiffiniol barhaol, gan gynnwys triniaethau adferol. Pan gynghorir yn erbyn triniaeth ddiffiniol, neu os nad yw triniaeth o'r fath yn bosibl, bydd cyfiawnhad dros unrhyw driniaeth neu ofal a ddarperir yn cael ei gofnodi yng nghofnod clinigol y claf.
- Ar gyfer cleifion nad oes ganddynt berthynas â'r practis ar hyn o bryd, dylid eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r gofyniad iddynt chwilio am ofal pellach i ddatrys y mater brys neu sicrhau nad yw'r broblem yn digwydd eto. Er enghraifft, os oes angen rhagor o driniaeth arferol, dylid cynghori'r claf i gofrestru ar y Porth Mynediad Deintyddol.

2. Asesu Cleifion

- Bydd yr asesiad yn cynnwys asesiad clinigol llawn (gan gynnwys meinwe meddal) a radiograffeg yn y geg
- Bydd yr elfen atal yn cynnwys cyngor ar ddeiet a chyfarwyddyd ar Hylendid y Geg (ar sail archwiliad clinigol), rheoli ffactorau risg gan gynnwys cyngor ar smygu/alcohol/siwgr ac ati.
- Defnyddio fflworid, presgripsiwn am bast dannedd fflworid crynodiad uchel a selwyr tyllau (ar gyfer pydredd enamel) fel y bo'n briodol.
- Os oes angen triniaeth neu fonitro, bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud o dan becyn gofal.

3. Pecyn Gofal Pydredd Dannedd Syml

- Yn cynnwys adferiadau plastig neu echdyniadau ar gyfer 1-4 dant
 - Deunydd cyfansawdd 3-3 ac arwyneb llyfn cefn y geg a dosbarth I
 - Dewisiadau amgen i Amalgam 4-8 Dosbarth II
- Nid yw'n cynnwys endodonteg (triniaeth sianel y gwreiddyn)

4. Pecyn Gofal Adferol Estynedig

- Yn cynnwys gwaith adferol plastig neu echdyniadau ar gyfer 5-8 dant
 - Deunydd cyfansawdd 3-3 ac arwyneb llyfn cefn y geg a dosbarth I
 - Dewisiadau amgen i Amalgam 4-8 Dosbarth II
- Nid yw'n cynnwys endodonteg (triniaeth sianel y gwreiddyn)

5. Pecyn Perio

- Mynediad wedi'i asesu yn dilyn ymgysylltiad ond rhaid i'r claf gael sgôr plac o 30% o leiaf erbyn 3ydd ymweliad OHE)
- I gynnwys
 - sgôr plac a chyfarwyddiadau hylendid y geg wedi'u teilwra
 - 6ppc
 - RPRF
 - Digramennu poced

6. Pecyn Gofal Sianel y Gwreiddyn Blaen y Geg (Dant Blaen)

- Yn cynnwys uchafswm o 2 driniaeth endodontig yn cynnwys triniaeth adferol plastig 3-3

7. Pecyn Gofal Sianel y Gwreiddyn Cefn y Geg (Dant Cefn)

- Yn cynnwys uchafswm o 2 driniaeth endodontig cefn y geg (4-6)
- Yn cynnwys llenwi cysbau
- Nid yw'n cynnwys cost labordy ar gyfer unrhyw offer deintyddol sydd ei angen

8. Pecyn Gofal ar gyfer Coron a Phont

- Uchafswm o 3 uned
- Yn cynnwys:
 - Cynnal a chadw'r goron a'r bont
 - Modelau astudio, cynllunio neu ddynwared symudiadau'r ên
 - Siaffftiau metel bach (pyst) neu graidd
- Nid yw'n cynnwys ffioedd labordy ar gyfer yr offer deintyddol

9. Pecyn Gofal Dannedd Gosod

- Yn cynnwys dannedd gosod uchaf ac isaf
- Nid yw'n cynnwys ffioedd labordy ar gyfer yr offer deintyddol

10. Sefydlogi Llawer lawn o Anghenion

- Yn cynnwys sefydlogi GIC cyn y broses atgyfeirio
 - Diffiniad y driniaeth hon yw triniaeth sydd angen deg neu fwy o ymyriadau e.e. llenwi/echdynnu, sy'n cynnwys triniaeth endodontig (sianel y gwreiddyn)
 - Yna mae'r claf yn cael ei atgyfeirio at y Bwrdd Iechyd am driniaeth i fod yn ddeintyddol ffit yn y gwasanaeth deintyddol cymunedol neu wasanaeth a gomisiynir ar wahân

11-14. Pecynnau Gofal Ailalw

- Mae pecyn ailalw 3 mis yn darparu ar gyfer 4 asesiad mewn cyfnod treigl o 12 mis.
- Mae pecyn ailalw 6 mis yn darparu ar gyfer 2 asesiad mewn cyfnod treigl o 12 mis
- Mae pecyn ailalw 9 mis yn darparu ar gyfer 2 asesiad mewn cyfnod treigl o 18 mis
- Mae pecyn ailalw 12 mis yn darparu ar gyfer asesiad blynyddol.
 - Bydd asesiad yn cynnwys popeth o dan becyn gofal 2 yn unol â'r gofynion clinigol.

15-19 Pecynnau Gofal Asesu ac Ailalw ar gyfer Plant

- Bydd asesiad yn cynnwys popeth o dan becyn gofal 2 yn unol â'r gofynion clinigol
- Mae pecyn ailalw 6 mis yn darparu ar gyfer 2 asesiad mewn cyfnod treigl o 12 mis

Cwestiynau'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio Contractau'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol

Cynnwys

Cwestiynau'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio Contractau'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol	30
Adran Un: Amdanoch Chi (Proffilio)	31
Adran Dau: Agwedd at Ddiwygio	34
Rhan Tri: Gwellu Mynediad at Wasanaethau Rheolaidd	35
Rhan Pedwar: Gwellu Mynediad at Wasanaethau Brys	37
Adran Pump: Talu am Wasanaethau Deintyddol y GIG	38
Adran Chwech: Ystyriaethau Penodol ar gyfer Contract Technegol	39
Adran Saith: Deall Effaith.....	41

Adran Un: Amdanoch Chi (Proffilio)

Mae cwestiynau 1 – 4 yn ddewisol, ond mae'r atebion yn ein helpu i ddeall profiadau ar draws gwahanol grwpiau demograffig.

1) Beth yw eich oedran? (dewisol)

Dan 16	☐
16 i 24	☐
25 i 34	☐
35 i 44	☐
45 i 54	☐
55 i 65	☐
Dros 65 oed	☐

2) Pa ddisgrifiad rhywedd sy'n cyfateb orau i chi? (dewisol)

Gwryw	☐
Benyw	☐
Anneuaid	☐
Mae'n well gen i beidio â dweud	☐
Mae'n well gen i hunanddisgrifio (rhowch fanylion isod)	☐

3) A yw'r rhyw rydych chi'n uniaethu ag ef yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd adeg eich genedigaeth? (dewisol)

Ydy	☐
Nac ydy	☐
Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

4) Beth yw eich grŵp ethnig? (dewisol)

Gwyn - yn cynnwys Prydeinig, Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon, Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig, Roma neu unrhyw gefndir gwyn arall	☐
Grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig - yn cynnwys gwyn a du Caribïaidd, gwyn a du Affricanaidd, gwyn ac Asiaidd neu unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall	☐
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - yn cynnwys Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaid, Tsieineaidd neu unrhyw gefndir Asiaidd arall	☐
Du, du Prydeinig, Caribïaidd, Affricanaidd neu unrhyw gefndir du arall	☐
Arall - gan gynnwys Arabaidd neu unrhyw grŵp ethnig arall	☐

5) Ym mha ardal Bwrdd Iechyd ydych chi wedi'ch lleoli?

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	☐
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	☐
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	☐
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	☐
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	☐
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	☐
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	☐

6) Ym mha rinwedd ydych chi'n ymateb i'r arolwg hwn?

Unigolyn sy'n rhannu fy safbwyntiau a fy mhrofiadau personol fel claf, gofalwr neu aelod o'r cyhoedd	☐
Ar ran unigolyn arall (Neidiwch i 7a – datgloi cwestiynau cyhoeddus yn unig)	☐
Gweithiwr deintyddol proffesiynol (Neidiwch i 7b – datgloi cwestiynau am y proffesiwn)	☐
Aelod o'r gweithlu iechyd neu ofal nad yw'n ddeintyddol yn rhannu fy marn broffesiynol	☐
Ar ran sefydliad (Neidiwch i 7c)	☐

7a) Os ateboch chi 'ar ran unigolyn arall' yng nghwestiwn 6, ar ran pwy ydych chi'n ateb?

Plentyn	☐
Oedolyn agored i niwed	☐
Unigolyn nad oes ganddo fynediad at dechnolegau digidol, neu ddim yn gallu eu defnyddio.	☐
Arall (defnyddiwch y gwagle isod)	☐

--

7b) Os ateboch chi 'gweithiwr deintyddol proffesiynol' yng nghwestiwn 6, beth yw eich proffesiwn?

Deintydd	☐
Nyrs ddeintyddol	☐
Hylenydd deintyddol	☐
Therapydd deintyddol	☐

Arbenigwr ysbyty	☐
Arall (defnyddiwrch y gwagle isod)	☐

7c) Os ateboch chi 'ar ran sefydliad', ar ran pwy ydych chi'n ateb yr arolwg?

Elusen neu drydydd sector	☐
Undeb Llafur	☐
Bwrdd Iechyd y GIG	
Proffesiwn Gofal Deintyddol	☐
Gofal cymdeithasol	☐
Llywodraeth Leol	☐
Masnachol	☐
Y Cyfryngau	☐

8) Fel claf, sut fydddech chi'n disgrifio'ch hun? (dewisol)

Does gen i ddim mynediad at ddeintydd, dydw i ddim yn teimlo bod angen cael un	☐
Does gen i ddim perthynas barhaus â phractis, ond rwy'n cael mynediad at ofal brys pan fydd ei angen arnaf.	☐
Rwy'n glaf deintyddiaeth y GIG ar hyn o bryd, a hoffwn barhau â'r trefniant hwn	☐
Rwy'n glaf yn y GIG, ond rwy'n cael trafferth cael gafael ar ofal	☐
Rwy'n glaf preifat, ond hoffwn gael mynediad at ddeintydd y GIG	☐
Rwy'n glaf preifat a hoffwn barhau â'r trefniant hwn	☐

Adran Dau: Agwedd at Ddiwygio

1) Arolwg Barn am yr Agwedd at Ddiwygio (dewisol)

Datganiad	Anghytuno'n llwyr	Anghytuno	Niwtral	Cytuno	Cytuno'n llwyr
Mae angen gwneud newidiadau er mwyn sicrhau mynediad tecach at wasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru.	☐	☐	☐	☐	☐
Mae gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf	☐	☐	☐	☐	☐
Bydd y diwygiadau arfaethedig i'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) yn helpu i sicrhau mynediad teg at ofal deintyddol y GIG i bawb yng Nghymru.	☐	☐	☐	☐	☐

2) Pa rwystrau, os o gwbl, sy'n eich atal rhag cael gafael ar ofal deintyddol y GIG?

Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Ddim yn gallu cael apwyntiad	☐
Gofynion bywyd / gwaith	☐
Gofynion gofalu	☐
Emosiynau fel ofn, pryder neu embaras	☐
Mynediad at drafnidiaeth addas	☐
Methu talu cost y driniaeth, ond ddim yn gymwys i gael cymorth ariannol	☐
Does gen i ddim problem cael gafael ar ofal deintyddol y GIG	☐
Arall (Defnyddiwch y gwagle isod)	☐

Rhan Tri: Gwella Mynediad at Wasanaethau Rheolaidd

1) Arolwg Barn am Wella Mynediad at Wasanaethau Rheolaidd (dewisol)

Datganiad	Anghytuno'n llwyr	Anghytuno	Niwtral	Cytuno	Cytuno'n llwyr
Dylid cael proses sy'n blaenoriaethu apwyntiadau deintyddol i'r rhai sydd â'r angen clinigol mwyaf.	☐	☐	☐	☐	☐
Dylai cyllid y GIG roi blaenoriaeth i blant, hyd yn oed os yw'n golygu y gellir gweld llai o bobl yn gyffredinol	☐	☐	☐	☐	☐
Dylid cael dull teg sy'n cefnogi pobl i gael mynediad at ofal deintyddol rheolaidd y GIG	☐	☐	☐	☐	☐
Dylai cleifion nad ydynt yn mynd i'w hapwyntiadau rheolaidd gyda phractis deintyddol ar sawl achlysur, heb gysylltu â'r practis i roi gwybod, gael eu symud i bractis arall.	☐	☐	☐	☐	☐
Gan fod modd atal pydredd dannedd a chlefyd y deintgig i raddau helaeth, dylai'r contract deintyddol newydd ganolbwyntio ar gamau atal	☐	☐	☐	☐	☐
Dylai cleifion sy'n gallu gwneud hynny gymryd cyfrifoldeb am ofalu am iechyd eu ceg eu hunain	☐	☐	☐	☐	☐
Mae'r pecynnau tâl arfaethedig yn welliant o'i gymharu â'r system Uned o Weithgaredd Deintyddol (proffesiwn yn unig)	☐	☐	☐	☐	☐

2) Gan dybio bod gofal brys amserol ar gael, pa mor aml fydddech chi'n disgwyl cael archwiliad deintyddol rheolaidd

cyd-destun: mae'r canllawiau cyfredol yn awgrymu y gall oedolion ag iechyd y geg da fynd hyd at 24 mis rhwng archwiliadau rheolaidd

Mor aml ag y bydd fy neintydd yn ei argymhell	☐
Bob 6 mis	☐
Unwaith y flwyddyn	☐
Bob dwy flynedd	☐

3) Sut fydddech chi'n teimlo pe bai gweithiwr deintyddol proffesiynol arall neu bractis deintyddol arall yn ymdrin ag apwyntiadau eich teulu, pe bai'n golygu cael gwell mynediad at ofal deintyddol rheolaidd? (dewisol)

Rwy'n gwerthfawrogi cael mynediad at apwyntiad yn gyflymach, hyd yn oed os yw'n golygu peidio â gweld yr un gweithiwr deintyddol proffesiynol neu fynd i'r un practis	☐
Rwyf eisiau gweld yr un gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol neu fynd i'r un practis, hyd yn oed os yw'n golygu aros yn hirach am apwyntiad	☐
Does gen i ddim safbwyntiau cryf ar y mater	☐
Ddim yn gwybod	☐

4) Mae'r proffesiwn deintyddol yn cynnwys llawer o wahanol rolau. Mae'r rhain yn cynnwys deintyddion, nyrsys deintyddol, hylenwyr deintyddol, therapyddion deintyddol, therapyddion orthodonteg. A fydddech chi'n barod i weld aelodau eraill o'r tîm deintyddol pe bai'n golygu y gallech gael eich gweld yn gyflymach? (dewisol)

Byddwn	☐
Na fyddwn	☐
Efallai (eglurwch yr amgylchiadau yn y gwagle isod)	☐

--

Rhan Pedwar: Gwella Mynediad at Wasanaethau Brys

1) Arolwg Barn am Wella Mynediad at Wasanaethau Brys (dewisol)

Datganiad	Anghytuno'n llwyr	Anghytuno	Niwtral	Cytuno	Cytuno'n llwyr
Rwy'n gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol brys y GIG	☐	☐	☐	☐	☐
Os oes angen gofal deintyddol brys y GIG arnaf, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu ei gael	☐	☐	☐	☐	☐
Mae mynediad at ofal brys y GIG yn bwysicach i mi na mynediad at ofal rheolaidd y GIG	☐	☒	☐	☐	☐

2) Pa un ydych chi'n teimlo sy'n fwy o flaenoriaeth pan fyddwch chi'n mynd i apwyntiad brys?

Byddai'n well gen i fod allan o boen yn gyflym	☐
Byddai'n well gen i dderbyn cwrs llawn o driniaeth (pan fo'n bosibl), ac osgoi dod yn ôl am driniaeth barhaol	☐
Cyn belled nad wyf mewn poen, byddwn yn hapus i ddod yn ôl ar ddyddiad yn y dyfodol er mwyn datrys y broblem yn barhaol.	☐
Does dim ots gen i	☐

Adran Pump: Talu am Wasanaethau Deintyddol y GIG

1) Arolwg Barn am y Broses o Dalu am Wasanaethau Deintyddol y GIG

Datganiad	Anghytuno'n llwyr	Anghytuno	Niwtral	Cytuno	Cytuno'n llwyr
Dylid casglu'r arian rydych chi'n ei dalu am ofal deintyddol trwy system ar-lein, yn hytrach nag yn y practis deintyddol.	☐	☐	☐	☐	☐
Pan fyddaf yn cael triniaeth ddeintyddol y GIG, rwy'n deall faint rwy'n ei dalu tuag ato	☐	☐	☐	☐	☐
Rwy'n deall, pan fyddaf yn talu am driniaeth ddeintyddol y GIG, bod yr arian yn cael ei dalu i'r bwrdd iechyd yn y pen draw, nid i'r practis	☐	☐	☐	☐	☐
Fe'i gwneir yn glir i mi pan fyddaf yn talu am gyfuniad o ofal deintyddol y GIG a gofal deintyddol preifat	☐	☐	☐	☐	☐
Rwy'n hapus i wneud cyfraniad at fy nhriniaeth ddeintyddol y GIG ar yr amod ei fod yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau deintyddol i wella mynediad ar gyfer eraill	☐	☐	☐	☐	☐

Adran Chwech: Ystyriaethau Penodol ar gyfer Contract Technegol

1) Arolwg Barn am Ystyriaethau Penodol ar y Contract Technegol

Datganiad	Anghytuno'n llwyr	Anghytuno	Niwtral	Cytuno	Cytuno'n llwyr	Amherthnasol
Dylai deiliad y contract fod â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod deintyddiaeth rheolaidd lefel un yn cael ei ddarparu gan sicrhau nad yw cleifion yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer deintyddiaeth rheolaidd, syml.	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Mae'r model talu am y pecyn gofal newydd yn rhoi tâl teg am y gwasanaethau a ddarperir	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Mae'r model talu newydd yn gwella tegwch a thryloywder o'i gymharu â'r model Uned o Weithgaredd Deintyddol blaenorol	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Mae'r model pecyn gofal yn cefnogi taliad teg ar gyfer deintyddion cyswllt a'r tîm deintyddol ehangach	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Mae'n briodol bod uchafswm trothwy yn cael ei osod ar driniaethau gwerth uchel (e.e. therapi sianel y gwreiddyn ar y dannedd cefn, a choron/pont)	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Rwy'n teimlo y bydd y contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd yn caniatáu imi allu cyflawni fy nghontract cyfan a lleihau'r angen i adfachu arian.	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Bydd y model talu newydd yn cefnogi sefydlogrwydd ariannol fy mhreactis	☐	☐	☐	☐	☐	☐

2) A oes unrhyw becynnau gofal penodol ar y raddfa ffioedd newydd yr ydych yn teimlo sydd wedi'u tanbrisio neu eu gorbrisio?

Nac oes	☐
Oes (rhowch fanylion pellach yn y gofod isod)	☐

--

3) A ydych yn cytuno â diffiniad arfaethedig Llywodraeth Cymru o 'gleifion anghenion uchel' fel y rhai sydd angen 10 neu fwy o ymyriadau, gan gynnwys triniaeth endodonteg?

Ddim yn gwybod	☐
Cytuno	☐
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
Anghytuno (rhowch fanylion pellach yn y gofod isod)	☐

--

Adran 7: Deall Effaith

1) Os ydych chi'n credu bod angen ystyried agweddau hanfodol, sy'n bwysig o ran diwygio contractau deintyddol ond na chyfeiriwyd atynt yma, ysgrifennwch nhw isod.

2) Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gellid llunio'r diwygiadau i'r contractau deintyddol er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- osgoi effeithiau andwyol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3) Hoffem gael eich barn am yr effaith y gallai'r paramedrau ymarfer ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

- Ydych chi'n credu y bydd cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?

- A ydych chi'n credu y bydd cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?

4) Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny: